

Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstey, Rhuthun ar nos Lun, 20 Hydref 2014 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Stephen Beach (**Maer - Cadeirydd**)
Cyng. James Bryan, Bob Costain, Elisabeth Culshaw, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Simeon Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Katy Morgan Williams, Geraint Woolford ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

101. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Gyng. June Derry.

102. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd Cyng. Rosie Hughes-Moseley, fel aelod o'r Pwyllgor, ddiddordeb yn y canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd.
Cof. Rhif 115 – MARCHNAD FISOL AR SGWAR SANT PEDR

103. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei fod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

20 Med Agor Marchnad yr Hydref
25 Med Cyfarfod gyda Neil Dalrymple
26 Med Bore Coffi swyddogol yn Ysbyty Rhuthun, Cyfarfod Blynyddol Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych
Sue Ryder Clwb Rygbi Rhuthun
27 Med Bore Coffi McMillan yn Trosnant, Dadorchuddio plac Edward Pugh
28 Med Drysau Agored Sir Ddinbych
30 Med Fforwm yn Llys Erw
3 Hyd Agoriad Swyddogol Marchnad Wledig
5 Hyd Sul Dinesig Maer Prestatyn
6 Hyd Agor Candy Shack, Stryd Clwyd
9 Hyd Lansio Wicipedia, Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Rhuthun
12 Hyd Dyrnu Cynhaeaf, Sul Dinesig Maer Caerwys
13 Hyd Cyfarfod Cydlynnydd
14 Hyd Cinio yn y Tŷ Cyffredin gyda'r Gwir Anrhydeddus David Jones, A.S.
16 Hyd Corff Llywodraethol Ysgol Stryd y Rhos
17 Hyd Sul Dinesig Maer Towyn a Bae Cinmel

104. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. James Bryan	Cyfarfod Blynyddol Canolfan Awelon, Arwyddion Meysydd Parcio
Cyng. Elisabeth Culshaw	Cyfarfod Blynyddol Canolfan Awelon
Cyng. Rosie Hughes-Moseley	Gwarchod Busnes Rhuthun
Cyng. Simeon Jones	Penwythnos Drysau Agored Sir Ddinbych
Cyng. Robert Owen-Ellis	Menter Iaith Sir Ddinbych, Cyfarfod Cydlynnydd, Banc Bwyd x 4, Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod gyda Neil Dalrymple, Bore Coffi yn Ysbyty Rhuthun, Bore Coffi yn Myddleton Grill, Cyfarfod Blynyddol Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, Bore Coffi yn Trosnant, Penwythnos Drysau Agored, Fforwm yn Llys Erw, Ymlaen Rhuthun, Sul Dinesig Maer Prestatyn, Lansio agoriad Candy Shack, Lansio Wicipedia, Sul Dinesig Maer Caerwys.
Cyng. Geraint Woolford	Ymlaen Rhuthun, McMillan yn Trosnant, Rali
Cyng. Emrys Wynne	Canolfan Ymwelwyr, Cymdeithas Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru.

105. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

PENDERFYNWYD: *derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 22 Medi 2014.*

106. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

107. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2014.

PENDERFYNWYD: *derbyn y cofnodion.*

108. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2014.

PENDERFYNWYD: *derbyn y cofnodion.*

109. SUL COFFA – 9 TACHWEDD 2014

Derbyniodd yr aelodau fanylion am y trefniadau ar gyfer Sul Coffa eleni.

110. Y GWIR ANRHYDEDDUS DAVID JONES, A.S.

Cyflwynodd Clerc y Dref gais ar lafar gan Y Gwir Anrhydeddus David Jones, A.S. sydd yn dymuno mynychu cyfarfod o'r Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD: *gwahodd Y Gwir Anrhydeddus David Jones, A.S. i gyfarfod o'r Cyngor Tref.*

111. CYDLYNYDD TREF RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau ragor o fanylion am y swydd uchod.

112. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL YMLAEN RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais diwygiedig am Gymorth Ariannol oddi wrth Ron Bell, yn awr yn gweithredu dros Dîm y Dref. Cytunwyd y swm o £350.00, mewn egwyddor, yng Nghyfarfod Pwerau Brys gynhaliwyd ar 18 Awst 2014.

PENDERFYNWYD: *gwrthod y cais.*

113. TERFYNAU CYFLYMDER AR GEFNFFYRDD

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr oddi wrth Mr Aled Roberts, A.C. parthed cyflymder ar gefnffyrdd.

PENDERFYNWYD: *gofyn am ragor o wybodaeth.*

114. CYNGOR SIR DDINBYCH – GOSOD CYLLIDEB 2015 / 16

Derbyniodd yr aelodau e-bost oddi wrth Mohammed Mehmet, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ddinbych parthed y Broses Gosod Cyllideb a bod rhagor o fanylion i ddod yn fuan.

115. MARCHNAD FISOL AR SGWAR SANT PEDR

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais ar lafar gan Gydlynnydd y Dref am gymorth ariannol tuag at gost cludo a dychwelyd 'rhwystrau ffordd' o'r Hen Garchar i Sgwâr Sant Pedr ar gyfer y farchnad fisol (derbyniwyd pris ar lafar o £75.00 bob ffordd).

PENDERFYNWYD: *cadarnhau'r cais ac i drefnu hurio lori.*

I 16. CYMDEITHAS GYMUNEDOL LLANFWROG

Derbyniodd yr aelodau lythyr gan y Gymdeithas uchod ynghyd a chopi o'u poster hyrwyddol. Cyflwynwyd gwelliannau i'r poster eisoes.

I 17. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL PEN BARRAS

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynrychiolaeth y Cyngor Tref ar y Mudiad uchod gan fod tymor pedair blynedd Cyng. Robert Owen-Ellis wedi dod i ben.

PENDERFYNWYD: bod tymor Cyng. Owen-Ellis yn cael ei ymestyn i bedair blynedd bellach.

I 18. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL CYNGOR AR BOPETH SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr, ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol, gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at redeg y biwro yn Rhuthun - mae £2,000.00 yn y gyllideb ar gyfer y mudiad yma.

PENDERFYNWYD: cadarnhau'r Cyfraniad Blynyddol o £2,000.00 i'r Mudiad yma.

I 19. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30^{ain} Medi 2014

PENDERFYNWYD: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.

I 20. CYFRIFON I'W TALU

A.B.	Canda Copying Ltd	Hurio ffotogopiwr	*	129.14
638	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
639	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		163.20
640	B & M Building & Joinery	Gosod plac Edward Pugh	*	55.89
641	Ground Control	Torri glaswellt – Medi 2014	*	448.62
642	Cymdeithas Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cyfarfod 24 Hyd yng Nghei Conna – cinio i ddau		30.00
643	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - du a gwyn	*	51.73
644	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - lliw	*	48.56
645	Dafydd Williams	Arian parod		24.20
646	Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych	Cyfraniad Blynyddol		2,000.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £137.31)

I 21. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 24 Tachwedd 2014